



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAF 2013

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

Haen Sylfaenol

Barddoniaeth

1. (a) Natur a Dynoliaeth 1 marc
Einir Jones 1 marc
[2]
- (b) Rhaid cyfeirio ar y gerdd gyfan.

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y gerdd yn sôn am y modd rydyn ni wedi dinistrio'r môr
- Cawn ddarlun hapus o'r môr ar ddechrau'r gerdd – yn llawn pysgod yn “dawnsio'n loyw”
- Mae digon o bysgod yn y môr nes i ddyn ddechrau ei lygru gydag olew
- Mae dyn yn taflu poteli gwag a sbwriel a chemegion i ladd yr holl fyd natur sy'n byw yn y môr
- Hyd yn oed yn waeth na hyn mae dyn yn llygru'r môr gydag iwraniwm
- Nid heddiw yn unig fydd yn cael ei ddinistrio gan lygredd dyn – ond ddaw byd natur byth yn ôl i'r môr
- Yr hyn sy'n poeni'r bardd ar ddiwedd y gerdd yw'r ffaith bod dyn yn “gorfoleddu ym marwolaeth y môr”

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

16-20	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys• defnyddio dyfyniadau addas• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol• defnyddio dyfyniadau• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
4-9	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol• defnyddio ambell ddyfyniad• <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i>• <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none">• peth gwybodaeth yn unig am y gerdd• <i>ymgais at ddilyniant</i>• <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[20]

- (c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.
Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.
Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.
Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd – ½ marc am enwi'r mesur, ½ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur, 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.

- ½ marc am enwi'r nodwedd
- ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
- 2 farc am esbonio effeithiolrwydd

3 marc x 3
[9]

(ch)

7-9	<ul style="list-style-type: none"> ● ymateb, dadansoddi a dangos dealltwriaeth eithaf da o'r thema ● defnyddio dyfyniadau addas ● <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> ● <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-6	<ul style="list-style-type: none"> ● ymateb a dangos dealltwriaeth o'r thema ● defnyddio dyfyniadau ● <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> ● <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-3	<ul style="list-style-type: none"> ● ymateb a dangos peth dealltwriaeth o'r thema ● defnyddio dyfyniadau ● <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> ● <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> ● ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o'r thema ● <i>ymgais at ddilyniant</i> ● <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[9]

[40]

2. (a)

leuentid	Cymru a Chymreictod
Glas – Bryan Martin Davies	11.12.82 – Iwan Llwyd
Delyth Fy Merch yn Ddeunaw Oed – Dic Jones	Colli Iaith – Harri Webb

Teitlau'r cerddi $\frac{1}{2}$ marc x 2 1 marc
 Enwi'r beirdd $\frac{1}{2}$ marc x 2 1 marc
 [2]

(b) Disgwylir i'r ymgeiswyr ymdrin â'r ddwy gerdd yn gyfartal. 10 x 2 marc
 Os bydd ymgeisydd wedi ateb ar un gerdd yn unig / cerdd
 amherthnasol – 10 marc yw'r uchafswm a ddyfernir.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys defnyddio dyfyniadau addas <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
5-7	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol defnyddio dyfyniadau <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i> <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-4	<ul style="list-style-type: none"> arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol defnyddio ambell ddyfyniad <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none"> peth gwybodaeth yn unig am y gerdd <i>ymgais at ddilyniant</i> <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[20]

(c) Rhaid i'r tair nodwedd fod yn wahanol.
 Rhaid enwi'r nodwedd cyn cael marc am y dyfynnu ac effeithiolrwydd.
 Os nodir nodwedd heb ddyfyniad – dim marc.
 Gellir cyfeirio at fesur fel nodwedd – $\frac{1}{2}$ marc am enwi'r mesur, $\frac{1}{2}$ marc am enwi un o briodoleddau'r mesur, 2 farc am drafod effeithiolrwydd y mesur yn y gerdd.

- $\frac{1}{2}$ marc am enwi'r nodwedd
- $\frac{1}{2}$ marc am ddyfynnu'r nodwedd
- 2 farc am esbonio effeithiolrwydd

3 marc x 3
 [9]

(ch)

7-9	<ul style="list-style-type: none">● ymateb, dadansoddi a dangos dealltwriaeth eithaf da o'r thema● defnyddio dyfyniadau addas● <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i>● <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-6	<ul style="list-style-type: none">● ymateb a dangos dealltwriaeth o'r thema● defnyddio dyfyniadau● <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i>● <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
2-3	<ul style="list-style-type: none">● ymateb a dangos peth dealltwriaeth o'r thema● defnyddio dyfyniadau● <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i>● <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-1	<ul style="list-style-type: none">● ymateb a dangos ychydig o ddealltwriaeth o'r thema● <i>ymgais at ddilyniant</i>● <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[9]

[40]

Llinyn Trôns

3. (a) Gags a Nobl'n bwlio Llion – nid oes perthynas dda o gwbl 1 marc am bob pwynt i brofi hyn e.e.: 1 marc
2 farc
- Gags a Nobl yn rhoi ei ben i lawr y tŷ bach
 - Gwlychu gwely Llion â dŵr [3]
- (b) 3 phwynt perthnasol am 1 marc yr un, e.e.:
- Gags a Gwenan wedi dadlau
 - Gags wedi bod yn yfed a smocio dop
 - Gags yn diflannu ond neb yn chwilio amdano gan i Llion ddweud ei fod wedi pwdu
 - Dod o hyd i'w gorff ger y clogwyn
 - Hanes merch y plas – a laddodd Gags ei hun?
 - Poeni am ei arholiadau
 - Gweld Llion yn cusanu Gwenan
 - Trafferth gyda'r abseilio – colli hyder
 - Wedi taflu ei hun oddi ar y graig/ cyflawni hunan-laddiad [3]
- (c) Gellir sôn am enghreifftiau tebyg i'r canlynol:
- Dechrau cerdded yn gynnar yn y bore 7.30
 - Gwisgo esgidiau cerdded a dillad oren
 - Gwenan yn araf – ddim wedi arfer cerdded
 - Nobl'n cael llond ceg gan Donna am daflu sbwriel ar lawr
 - Dei yn cael y cyfrifoldeb o arwain
 - Yna Llion – ac yn mwynhau'r profiad
 - Llion yn dewis Gwenan i arwain i ben y mynydd
 - Mwynhau'r olygfa ar ben y mynydd
 - Gwenan yn crïo ar y ffordd i lawr am fod pothell o dan ei throed – nid yw Gags yn dangos unrhyw gydymdeimlad
 - Bwrw glaw yn drwm ar y ffordd i lawr

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

(ch)

5-6	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad• rhoi nifer o resymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad• rhoi rhai rhesymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

[6]

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw sy'n trafod effaith [4]
Os nad yw'r nodwedd a'r dyfyniad yn cytuno ni ellir rhoi marciau.

- (dd) Gellir cyfeirio at bwyntiau tebyg i'r canlynol:
- Nid oedd Llion am fynd i'r gwerysll – poeni am y canlyniadau TGAU
 - Nobl a Gags yn ei fwlio – pen i lawr y tŷ bach
 - Nid yw Llion yn hapus yn ei grŵp – Nobl, Gags, Dei, Gwenan ac Olwen
 - Gags a Nobl'n gwlychu gwely Llion
 - Llion yn magu hunan hyder ar ôl arwain y criw i fyny'r mynydd
 - Wedi mwynhau canŵio – gweld Dei yn gwasgu ei hun i mewn i *wet-suit*
 - Llion yn dda iawn am ganŵio
 - Nobl'n syrthio i'r dŵr wrth newid canŵ a Gags a Tecs Pecs yn syrthio i mewn i'r llyn hefyd
 - Llion yn sylweddoli ei fod yn mwynhau'r cwrs
- Gellir cyfeirio at unrhyw bwyntiau perthnasol eraill.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da • ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau • <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch • dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau • <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau, ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml • ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau • <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

[40]

Bachgen yn y Môr

4. (a) Jamal a Bibi'n frawd a chwaer ac yn agos iawn. 1 marc
 1 marc am bob pwynt i brofi hyn e.e.: 2 marc
- Y ddau'n gofalu am ei gilydd – Jamal am guddio Bibi ar ddechrau'r nofel am ei bod yn ferch
 - Jamal yn neidio i'r dŵr ar ôl Bibi ac mae'n gofalu amdani ar ôl iddyn nhw fod ar long wahanol i'r rhieni
- [3]
- (b) 3 phwynt perthnasol am 1 marc yr un, e.e.:
- Rhieni Jamal a Bibi ar gwch arall – tad y plant yn ceisio dringo dros ochr y cwch i fynd at y plant ond mam y plant yn ei ddal yn ôl
 - Newyddion yn cyrraedd y gwersyll fod y cwch arall, lle mae rhieni Jamal a Bibi, wedi suddo
 - Llong ryfel wedi mynd heibio iddyn nhw – ond yna llwyddo i'w gweld
- [3]
- (c) Gellir sôn am enghreifftiau tebyg i'r canlynol:
- Miloedd o bebyll yno – defnyddio brigau a chôt y tad i adeiladu pabell i'r teulu
 - Jamal yn mwynhau chwarae pêl-droed
 - Bachgen yn cynnig gwerthu dŵr i Jamal – y bachgen yn dwyn pêl-droed Jamal
 - Jamal yn gweld ochr arall i'r gwersyll – lle mae llawer o bobl sâl – cael ei bêl yn ôl
 - Jamal yn mynd ar dryc Croes Goch a gofyn am gymorth i bobl sâl
 - Gavin yn dweud wrtho am Awstralia – lle braf
 - Bachgen yn cynnig ei help am ddoler – ond yn fodlon cael y bêl yn lle – nid yw Jamal yn hapus am hyn
 - Jamal yn gweld ei deulu – ond heddlu yn sefyll o gwmpas ei dad
 - Dad yn talu'r heddlu – Jamal yn synnu faint o arian mae'n ei roi iddynt – ond pobl fydd yn gallu eu helpu i gyrraedd Awstralia

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

(ch)

5-6	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad• rhoi nifer o resymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad• rhoi rhai rhesymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

[6]

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw sy'n trafod effaith [4]

Os nad yw'r nodwedd a'r dyfyniad yn cytuno ni ellir rhoi marciau.

- (dd) Gellir cyfeirio at bwyntiau tebyg i'r canlynol:
- Diolch i Yusuf am adael iddo gadw ei bêl
 - Cuddio yng nghefn tacsï eu tad
 - Gweld hen dapiau yn hongian o'r coed
 - Cuddio yn yr hen siôp yn aros i weld eu mam
 - Dad yn mynd i'r stadiwm i chwilio am eu mam
 - Jamal yn meddwl ei fod yn gwybod beth yw'r cynllun – tîm pêl-droed Afghanistan
 - Stadiwm yn llawn – gweld y gwagedd a'r drylliau yn pwyntio atyn nhw
 - Un yn torri'n rhydd – eu mam nhw yw hi
 - Tacsï'n cyrraedd ac yn achub eu mam
 - Jamal yn pacio popeth gan gymryd gofal o'r ganhwylbren i ddod â lwc iddyn nhw

Gellir cyfeirio at unrhyw bwyntiau perthnasol eraill.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da • ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau • <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch • dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau • <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau, ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml • ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau • <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

[40]

Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr

5. (a) Nid oes perthynas dda rhwng y ddau – er eu bod yn gymdogion 1 marc
1 marc am bob pwynt i brofi hyn e.e.: 2 farc
- Meredydd wedi ei gyhuddo o dreisio Bethan Gwastad Hir – ei gael yn ddieuog ac nid oedd Gladys yn hapus am hyn (Bethan yn perthyn i Gladys)
 - Gŵr Gladys, Wil wedi marw bythefnos cyn rhieni Meredydd – ond Meredydd gafodd sylw a chydymdeimlad cymdeithas Hirfaen ar y pryd. Glenys yn genfigennus oherwydd hyn.
- [3]
- (b) 3 phwynt perthnasol am 1 marc yr un, e.e.:
- Gladys yn deffro yn y nos gyda phoen yn ei brest
 - Gweld dyn (Richard Jones) yn cerdded yn ei gardd yn chwilio am y trysor
 - Gladys yn mynd lawr i nôl procer i amddiffyn ei hun – marw, calon wan ganddi
- [3]
- (c) Gellir sôn am enghreifftiau tebyg i'r canlynol:
- Pethau'n haws iddo yn dilyn marwolaeth Gladys
 - Clo newydd i'r sied
 - Dylai'r gemau fod yn y sied – ond efallai y byddai'n rhaid gwneud twnnel
 - Carreg siâp pyramid yn ymddangos – crïo ar ôl gweld y bag
 - Panig wrth glywed lleisiau tu allan
 - Dianc trwy'r ffenestr
 - Bwrw glaw
 - Ceisio peidio â mynd i banig
 - Dwalad yn ymosod arno – Richard Jones yn ei gicio i farwolaeth
 - Poen yng nghoes Richard Jones
 - Defnyddio carai ei esgid i glymu'r hances ar y clwyf ar ei goes
 - Y môr yn ei dwyllo

8-10	<ul style="list-style-type: none"> ● dangos dealltwriaeth dda o'r nofel ● <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> ● <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> ● dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel ● <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> ● <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> ● arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori ● <i>ymgais at ddilyniant</i> ● <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

(ch)

5-6	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad• rhoi nifer o resymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad• rhoi rhai rhesymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

[6]

- (d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 [2]
- (iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw sy'n trafod effaith [4]
Os nad yw'r nodwedd a'r dyfyniad yn cytuno ni ellir rhoi marciau.

- (dd) Gellir cyfeirio at bwyntiau tebyg i'r canlynol:
- Meredydd wedi gofyn iddi ddyweddio am yr ail dro – ansicr gan ei bod wedi cael ei siomi mewn perthynas yn y gorffennol
 - Ei bod yn poeni dechrau caru gydag ef ar y dechrau am ei fod wedi ei gyhuddo o dreisio Bethan
 - Roedd hi'n adnabod Richard Jones – wedi gwerthu diod iddo yn yr Erddig
 - Wedi ei weld yn y nos yng ngardd Gladys, pan gysgodd yn nhŷ Meredydd
 - Poeni am Meredydd – am ei fod wedi digio bod cymaint o heddlu'n chwilio am gorff Richard Jones – doedd neb yn poeni am ei rieni ef
 - Poeni hefyd am Now – wedi marwolaeth Dwalad
- Gellir cyfeirio at unrhyw bwyntiau perthnasol eraill.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> ● dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau ● dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da ● ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau ● <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> ● <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> ● dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau ● ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch ● dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau ● <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> ● <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> ● dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau, ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml ● ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau ● <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> ● <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

[40]

I Ble'r Aeth Haul y Bore?

6. (a) Nid oes perthynas dda rhwng y ddau 1 marc
 1 marc am bob pwynt i brofi hyn e.e.: 2 farc
- Nid oedd Carson yn cytuno gyda'r hyn roedd Dicks yn ei wneud i'r Indiaid
 - Carson yn galw Dicks "y llofrudd hwnnw"
 - Carson yn ei daro ar draws ei wyneb â gwn ar ôl rhoi blancedi â'r frech wen arnynt i'r Indiaid
 - Dywedodd Dicks wrth Carleton wrth daflu Carson i'r carchar "Y mae perthyn i'r un gatrawd â Dicks yn troi fy stumog i Syr."
- [3]
- (b) 3 phwynt perthnasol am 1 marc yr un e.e.:
- Dicks yn ei threisio a lladd ei mab 7 diwrnod oed ar ddechrau'r nofel
 - Dicks yn gynddeiriog am iddo daro Dicks yn ei ben â charreg a'i frathu yn ei wddf cyn dianc i'r coed
 - Dicks yn ei gweld yn achub bywyd Quanah
 - Dicks yn chwilio amdani tu allan i Ffort Defiance
 - Haul y Bore yn saethu ei hun
- [3]
- (c) Gellir sôn am enghreifftiau tebyg i'r canlynol:
- Chico'n clywed hanes Haul y bore a Chiquito gan Quanah
 - Chico'n mynd ar goeden Chiquito – gosod corff ei fab mewn croen byffalo a'i glymu yn y goeden
 - Dawns ryfel – mwd a gwaed yn batrymau ar ei wyneb – gofyn i Usen (Duw'r Indiaid) i'w helpu i ddial
 - Nôl casgen o bowdwr gwn a saethau o'r ogof arfau
 - Taflu'r gasgen i'r tân ar ôl cyrraedd gweryll y Cotiau Glas
 - Saethu Cwmwl Gwyn, ceffyl Chico ac arestio Chico
 - Torri tafod Chico a'i saethu trwy ei bengliniau
 - Ei osod yn hongian ar y goeden i'r bleiddiaid ddod i orffen ei ladd / ei fwyta

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel • <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i> • <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel • <i>dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori • <i>ymgais at ddilyniant</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

(ch)

5-6	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad• rhoi nifer o resymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
3-4	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad• rhoi rhai rhesymau/ digwyddiadau fel tystiolaeth
0-2	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad

[6]

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2

[2]

(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 marc am sylw sy'n trafod effaith

[4]

Os nad yw'r nodwedd a'r dyfyniad yn cytuno ni ellir rhoi marciau.

- (dd) Gellir cyfeirio at bwyntiau tebyg i'r canlynol:
- Carson yn gwybod taw celwydd yw adroddiad Dicks – gwneud cwyn swyddogol yn ei erbyn
 - Carson yn adnabod yr Indiaid – gwybod sut i'w trin – difa cnydau
 - Carson yn gadael i Manuelito ddianc
 - Yn wallgof am fod Dicks wedi dosbarthu blancedi â'r frech wen
 - Un o'r Cotiau Glas yn rhoi gwn iddo er mwyn ei helpu i ddianc a'r modd wnaeth e ddianc
 - Yn benderfynol o helpu'r Indiaid ar eu taith i'r Bosque
- Gellir cyfeirio at unrhyw bwyntiau perthnasol eraill.

8-10	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau • dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da • ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau • <i>adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>arddangos gafaél dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-7	<ul style="list-style-type: none"> • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol – trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau • ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch • dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau • <i>ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>dangos y gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio elfennau gramadegol yn gywir</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none"> • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau, ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml • ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau • <i>peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas</i> • <i>ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol ac i atalnodi a sillafu rhai geiriau'n gywir ar adegau</i>

[10]

[40]

Haen Uwch

Barddoniaeth

1. (a) Thema: Pigo Cydwybod 1 marc
Bardd: Meirion MacIntyre Hughes 1 marc
[2]

(b) Cynnwys y gerdd

Rhaid cyfeirio at y gerdd gyfan. Gellir sôn am bwyntiau fel:

- Cywydd yw hwn sy'n pigo cydwybod pob un ohonom – ni all e weld ei gydwybod, ond mae'n ei glywed ddydd a nos yn siarad.
- A'r bardd ymlaen i ddweud nad yw'n cael llonydd gan ei gydwybod – yn peri iddo faglu, teimlo'n ddiflas ac yn effeithio ar ei fywyd – nid yw'n cael llonydd ganddo i fyw ei fywyd.
- Ar Fawrth y cyntaf, pan fyddwn ni yng Nghymru'n dathlu gŵyl ein nawddsant, cynhelir nosweithiau i ddathlu ein Cymreictod trwy baratoi cawl cennin ac yfed gwin, ond wrth i'r bardd fynd ati i fwynhau pryd o fwyd, cofia am y miloedd sy'n llwgu yn y trydydd byd. Tra'n bod ni yn gwledda, mae pobl yn Somalia'n marw o newyn.
- Yn y pedwerydd pennill cofia'r bardd am yr holl waith dyngarol sy'n digwydd ar hyd a lled y byd – yr unig a'r hen a'r rhai a ddiodefodd oherwydd rhyfel yn Sarajevo – mae cofio amdany'n nhw yn achosi poen corfforol gwirioneddol iddo.
- Parhau mae'r rhestr o bobl llai ffodus na ni yn y pennill nesaf, y digartref, y di-waith a phobl ddall y byd.
- Yn y pennill olaf dyhea'r bardd am lonydd gan ei gydwybod.

16-20	<ul style="list-style-type: none">• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol• <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynus</i>• <i>gafael gadarn ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
10-15	<ul style="list-style-type: none">• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys• defnyddio dyfyniadau'n addas a phwrpasol• <i>cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus</i>• <i>gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
4-9	<ul style="list-style-type: none">• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys• defnyddio dyfyniadau• <i>cyflwyno'r gwaith yn drefnus</i>• <i>arddangos gafael dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg</i>
0-3	<ul style="list-style-type: none">• arddangos gwybodaeth am gynnwys y gerdd trwy gyflwyno ffeithiau perthnasol• defnyddio ambell ddyfyniad• <i>cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus</i>• <i>gafael weddol dda ar sillafu, atalnodi a gramadeg yn gywir</i>

[20]

- (c) Trafod nodweddion arddull
 4 nodwedd x 2 farc yr un
 Ni ellir cyfeirio at yr un nodwedd ddwywaith
 ½ marc am enwi'r nodwedd
 ½ marc am ddyfynnu'r nodwedd
 1 marc am drafod effeithiolrwydd

[8]

(ch)

